CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL

Llanfairfechan Community Town Hall Village Road Llanfairfechan LL330AB
Mayor Cllr Laura Fielding Deputy Mayor Cllr Alun Rhys Jones

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF
MAI'R 1af 2024

Yn Bresennol: Cadeirydd: Maer Laura Fielding; Dirprwy Faer Alun Rhys Jones; Cyng Sharne-Marie Bellis; Cyng Leena Farhat; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Rob Jewell (ar-lein) Cyng Chris Jones (ar-lein); Cyng Nia Jones; Cyng Preben Vangberg; Cyng Christine Roberts; Clerc y Dref Jayne Neal. ***Cynhaliwyd y cyfarfod yn Siambr y Cyngor ac ar-lein drwy Microsoft Teams – ymddiheuriadau am y problemau technegol gyda mewngofnodi i'r cyfarfod ar-lein. Cafodd y cyfarfod hwn ei recordio at ddibenion cadw cofnodion yn unig.***

1. **Croesawodd y Maer Laura Fielding bawb i'r cyfarfod gan rannu'r wybodaeth cymhennu cyffredinol.**
2. **<u>Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)</u> Cyng Gareth Jones**
3. **<u>Derbyn datganiadau o ddiddordeb</u> – (Buddiannau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu) Bu i'r Maer Laura Fielding ddatgan buddiant yn Eitem 9.3 fel Aelod o'r pwyllgor a gadawodd yr ystafell ar gyfer yr eitem hon. Bu i'r Cyng Andrew Hinchliffe a'r Cyng Leena Farhat ddatgan buddiant yn Eitem 9.1 gan eu bod yn Llywodraethwyr ar ran yr ysgol ond bu iddyn nhw aros yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau.**
4. **<u>Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd</u> – ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau**

Doedd Rheolwr Traffig a Rhwydweithiau CBSC ddim yn bresennol oherwydd salwch. Derbyniwyd e-bost i ateb ambell i gwestiwn gan y Cynghorwyr Tref:

- **Bwriad i gyflwyno cyfyngiad aros cyfyngedig ar yr ardal y tu allan i'r tai, ond gydag eithriad ar gyfer deiliaid trwyddedau preswylwyr. Mae angen penderfynu ar y cyfyngiad amser a'r union gyfyngiad ar hyd y promenâd ac fe groesewir adborth ynghylch y cyfyngiad amser a pha mor bell ar hyd y promenâd y dylid gosod y cyfyngiadau. Ein bwriad cychwynnol oedd gosod y cyfyngiadau hyd at y cae chwarae, lle bydd parcio anghyfyngedig bob amser o'r fan honno ymlaen.**
- **Ar gyfer digwyddiadau, gallai'r trefnydd digwyddiadau gysylltu gyda'r Gwasanaeth Parcio i drafod eu trefniadau pan fo'n briodol.**
- **Mae maes parcio hydraidd wedi'i ddwyn i ystyriaeth yn dilyn awgrym gan breswylydd. Rydym wrthi'n bwrw golwg ar opsiwn arwyneb hydraidd. Fodd bynnag, bydd angen dwyn i ystyriaeth gofynion cynnal a chadw yn y dyfodol yn ofalus.**
- **Ymholiad ynghylch dwyn i ystyriaeth ffynnon ddŵr a ffin afon wedi'i anfon at dîm amddiffyn rhag llifogydd CBSC iddyn nhw ei ystyried.**
- **Ymholiad ynghylch paneli solar ar do'r tŷ bach wedi'i anfon at Reolwr Seilwaith CBSC i'w ddwyn i ystyriaeth.**
- **Bydd trefniadau codi ffi am y maes parcio yn unol ag ein prisiau parcio ledled y sir. Tariff A fydd maes parcio Llanfairfechan (sef y tariff isaf).**
- **Gallai aelodau o'r cyhoedd brynu trwyddedau blynyddol ar gyfer holl feysydd parcio neu feysydd parcio penodol y sir. Gellir eu prynu ar-lein drwy wefan CBSC. (Maes parcio Tariff A £138.00) (holl feysydd parcio'r sir £292.00).**

Mae Rheolwr Traffig a Rhwydweithiau CBSC wedi cynnig cynnal cyfarfod gwybodaeth ar gyfer y Cynghorwyr yn yr wythnosau nesaf a bydd yn mynychu cyfarfod Cyngor Tref yn y dyfodol agos.

5. <u>Derbyn a chymeradwyo cofnodion Ebrill y 10fed, 2024, a'r rhestr weithredu gyfredol (DLlL1972 Atodlen 12)</u>

	Date: May 1st 2024		NFI = no further information
	Item:	**Date:**	**Progress**
1	Nant y Pandy car park	NFI	email sent for further info 13/03/2024
2	Paddling Pool	update	update message been sent out by CCBC
3	Promenade car park & flood protection	on agenda	
4	Bus stop damage Y Bont east	NFI	can it be confirmed this has been completed?
5	Llanfairfechan Flag Project	update	order been sent off / 80%covered by SPF Funding
6	Resident concern about flytipping in Station road	NFI	awaiting information about mobile CCTV
7	Benches project	on agenda	
8	Station Road Garden	NFI	
9	SPF WS Recreation project (MUGA)	update	re: finance
10	Audit	update	email sent to chase up as Internal Audit needs to start / confirmed use of internal audit totals
11	Kickstarter Community Plan	NFI	awaiting notification from discover Llanfairfechan
12	Pagoda shelter	NFI	staff to complete painting
13	Beach huts	update	email sent to estates - query to flood protection team / damage report sent into system
14	Llanfairfechan Celebrates	on agenda	
15	Christmas lights	NFI	awaiting information from Colwyn TC
16	Pen dalar sign	NFI	cover has arrived and Preben has agreed to update the posters - to action
17	Food and Artisan markets plan	Update	Sunday May 19th Jayne not in Llanfairfechan
18	Christmas Tree of Lights Rotary	NFI	
20	SPF Events project - Spider Dome	Update	order submitted / 80% payment covered by SPF Funding

2. Mae'r pwll padlo yn Llanfairfechan wedi'i gwblhau a bydd yn barod i'w agor yn ystod gwyliau Mai.

4. Lloches fws. Clerc i fynd i'r afael â hyn a chynnwys y Cynghorwyr Sir a'r deiliad portffolio mewn e-bost.

5 Mae'r Prosiect Baner a Chromen Pry Cop yn mynd rhagddi – mae'r deunydd yn llawer gwell. Gofynnwyd am gromen pry cop mewn lliw gwyrdd.

9 Mae'r wybodaeth gyllid yn y pecyn cyllid a bydd angen talu'r taliadau cyn gynted â phosibl

10 Bu i archwilio Cymru gadarnhau bod modd defnyddio'r ffigwr yr archwiliad Mewnol fel sail ar gyfer 2024/25. Mae oedi sylweddol gyda'r gwasanaeth archwilio allanol ar hyn o bryd ac mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn aros i glywed ganddyn nhw.

11 Mae Darganfod Llan wrthi'n gweithio ar gyfansoddiad ac mae bron yn barod

13 Cabannau ar y Traeth – dim cynnydd, mae'r rhwystr diogelwch yn dal yno.

17 Marchnadoedd Bwyd a Chrefftau – apêl i ragor o Gynghorwyr gymryd rhan. Mae'r marchnadoedd ar waith ers tair blynedd bellach ac mae'n hollbwysig eu bod yn parhau i fod yn brosiect blaenllaw ar gyfer y Cyngor Tref.

Estynnwyd diolch i'r Swyddog Prosiect Digwyddiadau dros dro am gynorthwyo gyda chynnal y prosiect marchnad. Mae wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol, ac mae gweinyddiaeth y farchnad bellach yn ôl ar y trywydd iawn. Estynnwyd diolch i'r Cyngor Tref am gytuno gyda'r datblygiad hwn er mwyn lleddfu'r pwysau o ran y staff.

<u>Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng A Hinchliff Penderfynwyd cymeradwyo a nodi</u>

6. <u>Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo newid i'r drefn bleidleisio yn y Cyngor Tref</u>

Yn dilyn ceisiadau blaenorol i ddwyn hyn i ystyriaeth, cafodd gwybodaeth ynghylch gyfreithlondeb gweithdrefnau pleidleisio ei ddosbarthu. Does dim rhaid enwi'r cynigwyr a'r eilwyr bellach ac fe awgrymwyd y byddai cynigion gan y Cadeirydd yn fwy cyfartal ac eglur.

Cytunwyd ychwanegu'r Eitemau at yr agenda, a bydd modd eu trafod. Yn dilyn hyn, byddai'r Cadeirydd yn crynhoi'r penderfyniad a bydd cyfle i fwrw pleidlais. Yna gallai'r Cynghorwyr ofyn am gael eu henwi os ydyn nhw am i'w gwrthwynebiad gael ei gofnodi <u>Cynigwyd a chymeradwywyd y penderfyniad hwn trwy bleidlais unfrydol.</u>

7. <u>Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo datganiad o Argyfwng Hinsawdd</u>

Trafodwyd hyn yn drylwyr, ac fe gytunwyd y dylai Pwyllgor yr Amgylchedd fynd i'r afael â hyn. Cytunwyd y dylen nhw lunio dogfen ar y cyd â'r Clerc yn barod ar gyfer y cyfarfod ar Fehefin y 12fed, 2024.

<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>

8. <u>Derbyn y diweddaraf a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer digwyddiadau:</u>

1. **<u>Llanfairfechan yn Dathlu</u> – Yn sgil nifer fawr o ddigwyddiadau yn ystod Mai a Mehefin, mae hyn wedi'i ohirio tan Awst i gyd-fynd â'r digwyddiad i ail-lansio'r Ardal Gemau Amlbwrpas. Clerc i gysylltu gyda'r Clwb Bowlio a'r grŵp Croquet i weld a ydyn nhw'n awyddus i fod yn rhan o'r digwyddiad.**

<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>

2. **<u>D Day Mehefin y 6ed a Mehefin yr 8fed</u> Mae Clwb Brecwast Cynfilwyr Llanfairfechan wedi trefnu Garddwest er mwyn dathlu 80 mlynedd ers D Day ar ddydd Sadwrn, Mehefin yr 8fed . Maen nhw wedi gofyn am y cymorth canlynol gyda'r taliadau: Band Gorymdeithio £150 / Baneri'r Undeb £60 / Baneri undeb bach £10. Clerc i rannu manylion Cymdeithas y Cynfilwyr Dall i weld oes modd iddyn nhw helpu gyda chyllid o hyn ymlaen a chysylltu gyda CVSC hefyd i drafod llunio cyfansoddiad. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Tref yn cyflwyno £150 i ariannu'r band gorymdeithio ac yn darparu baneri papur i'w lliwio, gan ofyn i'r ysgol gwblhau hyn.**

Mae'r Cyngor Tref hefyd yn trefnu eu digwyddiad eu hun ar gyfer dydd Iau, Mehefin y 6ed fel a ganlyn gan godi baner D Day yn y Neuadd Gymunedol yn y bore o 10:30yb a Goleuo Llusern Heddwch am 9.15yh. <u>Cynigwyd a chymeradwywyd y penderfyniad hwn trwy bleidlais unfrydol.</u>

3. **<u>Marchnadoedd Bwyd a Chrefftau</u> Clerc i anfon gwahoddiadau calendr at y Cynghorwyr a chasglu gwybodaeth ynghylch pryd maen nhw ar gael. <u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>**

9. **<u>Derbyn gwybodaeth am Geisiadau Grant s137:</u>**
    1. **<u>Grant Ysgolion yr Urdd</u>**

Soniwyd bod y Cyngor Tref yn ymroi i hyrwyddo gwaith yr Urdd. Codwyd pryderon ynghylch ail ran y cynigion oherwydd roedden nhw o'r farn y dylai'r sesiynau hyn fod yn rhan o ddarpariaeth bresennol yr ysgol i hyrwyddo'r Gymraeg. Bu cwestiynu ynghylch a ydy hyn yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwerth ychwanegol yn hytrach na darpariaeth statudol. Yn dilyn trafodaeth lawn am y pwnc, cytunodd pawb y dylid dyfarnu £3000 i'r ysgol i dalu am danysgrifiad yr Urdd ar gyfer y ddwy ysgol.

<u>Cynigwyd a chymeradwywyd y penderfyniad hwn trwy bleidlais unfrydol</u>

Bu pleidlais ar wahân ynghylch ail ran y cais i ariannu gweithgareddau yn yr ysgol ac fe gytunwyd na ddylid cynnig cyllid oherwydd teimlwyd y dylai hyn fod yn rhan o gynllun datblygu'r ysgol. <u>Ni chymeradwywyd y penderfyniad hwn yn sgil pleidlais fwyafrifol o 6 – 5.</u>

2. **<u>Gwasanaethau Ieuenctid Conwy</u> Soniwyd mai dyma'r unig ffordd y bydd modd i Wasanaethau Ieuenctid Conwy weithredu yn Llanfairfechan. Cytunwyd i dalu £600 i'r Neuadd Gymunedol i logi'r neuadd ar gyfer y Clwb Ieuenctid ar ddydd Mawrth. <u>Cynigwyd a chymeradwywyd y penderfyniad hwn trwy bleidlais fwyafrifol</u>**
3. **<u>Pwyllgor Digwyddiadau Cymunedol Llanfairfechan</u>. Eglurwyd bod y cais grant hwn yn berthnasol i S144 Dathliadau a Thwristiaeth yn hytrach na s137. Mae arian yn yr archebiant tuag at y digwyddiad. Cytunwyd dyfarnu £1500 i'r pwyllgor tuag at y costau ar gyfer Llanfest 2024 ar ddydd Sadwrn, Mehefin y 29ain.**

<u>Cynigwyd a chymeradwywyd y penderfyniad hwn trwy bleidlais unfrydol</u>

10. **<u>Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Prosiect Meinciau Llanfairfechan</u>**

Mae'r prosiect wedi llwyddo i dderbyn £1505.00 ers Mawrth 2022 drwy daliadau gan deuluoedd ac rydym wedi gwario £340.00 ar blaciau. Does dim mwy o le ar gyfer placiau ar Y Cob ond mae digonedd o le ar feinciau metel y briffordd. Cynnig i brynu'r fainc sy'n addas i bawb yng Ngerddi Fictoria fel y dangosir yn y pecyn cyfarfod. Roedd cefnogaeth i fwrw iddi gyda hyn ond bydd angen i'r Clerc holi am ddyfynbrisiau am fainc blaen wedi'i galfaneiddio sy'n addas i bawb os yn bosibl ac adrodd yn ôl mewn cyfarfod yn y dyfodol. Mae angen adfer y lloches yng Ngerddi Fictoria ac fe awgrymwyd ceisio am gyllid allanol i atgyweirio hyn gan y bydd yn dasg sylweddol mwy na thebyg. <u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>

11. **<u>Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad cyllid a'r taliadau cyfredol ar gyfer Ebrill y 10fed, 2024</u>**

Taliadau i'w cyflwyno	
1.	**Staffio, swyddog contract a chostau cyffredinol Ionawr £4000**
2.	**Llogi Neuadd Gymunedol Llanfairfechan ar gyfer y farchnad o Ebrill hyd at Orffennaf 2024 £600**

3. **Sgipiau Cymunedol CBS Conwy (anfoneb olaf) £1848.00**
4. **The Dirt Buster Chwistrellu Dŵr yn y Meysydd Chwarae £900.00**
Prosiect Hamdden Traeth y Gorllewin wedi'i ariannu gan CFF a Chronfa Ffyniant Gyffredin Conwy
1. **Autotop Signs – Paneli ar Gaeau'r Ardal Gemau Amlbwrpas £14532.00 (Taliad ôl-ddyddiedig)**
2. **Soft Surfaces – Blaendal ar gyfer ail-wynebu £27187.56 (Taliad ôl-ddyddiedig)**
Prosiect Hamdden Traeth y Gorllewin – i'w dalu pan fyddwn yn derbyn anfoneb. Er gwybodaeth ar hyn o bryd
3. **Abacus LED Diweddaru'r Llifoleuadau £13034.00**
4. **Soft Surfaces Arwynebau'r Ardal Gemau Amlbwrpas £48333.44**
5. **Networld Cyfarpar Chwaraeon ar gyfer yr Ardal Gemau Amlbwrpas £7571.32**
6. **Elmer & Son Clirio eiddew a pharatoi'r ardal £250.00**
7. **Jones & Whitehead Trydan ar gyfer cloeon £500.00**
8. **Gareth Roberts Gof £1000.00**
9. **CIA systemau cloi clyfar £11000.00**
10. **Portable Spaces Cynwysyddion Storio £2050.00**
11. **SPA Power Machinery cyfarpar cynnal a chadw £2105.00**
12. **Kercher Chwistrellwr Dŵr Masnachol £624.99**
13. **Astrowarehouse Tywod ar gyfer glaswellt artiffisial £260.79**

Rhestrwyd taliadau hwyr yn y cyfarfod ac fe gân nhw eu hychwanegu at agenda Mai'r 22ain fel taliadau ôl-ddyddiedig. Taliadau Hwyr sydd wedi cyrraedd yn dilyn llunio'r Agenda. Bydd y rhain yn ymddangos ar agenda Mai'r 22ain 2024:

1. **EPC Forestry Toriad Hawliau Tramwy Cyhoeddus Mai £850.00**
2. **Kercher Chwistrellwr Dŵr Masnachol £624.99**
3. **Astrowarehouse Tywod ar gyfer glaswellt artiffisial £260.79**

Soniwyd bod costau cyfieithu Menter Iaith wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd y cofnodion syml ond bu'n werth chweil gan y bu'r adborth yn hynod gadarnhaol. Roedd pryder am gydraddoldeb yr hysbysiadau Cymraeg ar Facebook gan nad ydyn nhw'n ymddangos fel hysbysiadau ar wahân. Cytunwyd bod y taflenni cyllid a'r taliadau yn gywir a bydd yr hysbysiadau Facebook yn parhau i fod ar wahân ond bydd dolen cyfieithu bob amser i'r hysbysiadau eraill er mwyn i'r darllenwyr ddewis yr iaith a sicrhau bod yr hysbysiadau'n dal yn ymddangos. Cynigwyd a chymeradwywyd pob un drwy bleidlais unfrydol

11. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:

0/51551 25 Gorwel Llanfairfechan – doedd dim arsylwadau

0/51286 Datblygiad i'r Dwyrain o Gorwel – Mae'r Cyngor Tref wedi ail-gyflwyno'u dogfen oherwydd fe gytunwyd nad oedd gwahaniaeth sylweddol yn y cais cynllunio sydd wedi'i ail-gyflwyno.

Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Derbyn gohebiaeth

1. **E-byst gan breswylydd ynghylch arglawdd Maes y Glyn – Mae Asiantaeth Cefnffyrdd Cymru wedi'u hysbysu ac mae'n rhan o'r cynllun gwaith i'w glirio.**
2. **Hysbysiad o dipio anghyfreithlon ar Pig Street / Ffordd Plas Gwyn – Cyng wedi rhoi gwybod am hyn ar raglen yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau. Mae wedi'i glirio ond mae yna garped yno o hyd.**
3. **Hysbysiad gan breswylydd ynghylch canghennau'n bargodi o'r Feddygfa. Clerc i gysylltu gyda'r feddygfa a rhoi gwybod am y broblem. Penderfynwyd derbyn a nodi**

13. <u>Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd</u>

1. **Cyflwynodd y Cyng Andrew Hinchliff wybodaeth am <u>gyfarfod Pwyllgor y Clwb Hwylio</u> gydag Owen Conry Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd Conwy.**

Trefnwyd y cyfarfod gan Bwyllgor y Clwb Hwylio oherwydd pryderon ynghylch digwyddiadau a defnyddio ardal y lanfa. Rhannwyd gwybodaeth a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Tîm Amddiffyn rhag Llifogydd. Derbyniwyd sawl ymholiad ac mae'r tîm wrthi'n eu dwyn i ystyriaeth:

- **A fydd modd i gychod a cheir barcio ar y ffordd goch gyfyngedig ger y cwrt cychod os bydd y clwb Hwylio yn cynnal digwyddiad?**
- **Gellir rhoi gorchudd am ben y wal fel ei fod yn fwy deniadol- yn hytrach na wal goncrit plaen yn unig?**
- **Oes modd lledu'r giatiau i ganiatáu gwell mynediad i gychod ar y lanfa?**
- **Oes modd ychwanegu stepiau i gyrraedd y lanfa pan fo'r giatiau ar gau?**
- **Soniwyd yn y cyfarfod os ydy'r giatiau'r lanfa ar gau yna mae storm ar y gweill ac mae cwestiwn diogelwch difrifol ynghylch a ddylid nofio a hwylio yn yr amodau hynny.**
- **Oes modd cynnwys y lanfa yn y cynllun amddiffyn rhag Llifogydd? Hoffai Surf Life ddatblygu pwynt achub bywyd ar gyfer eu gwirfoddolwyr sy'n hyfforddi?**
- **Oes modd gwirio bod cynlluniau i ychwanegu palmant gyferbyn â Seagrass ar gyfer cerddwyr?**
- **A gaiff y bagiau tywod eu darparu mewn da bryd y tro nesaf?**

Soniwyd, yn debyg i'r rhan fwyaf o gynghorau, bod polisi dim bagiau tywod oherwydd eu bod yn aneffeithiol.

- **Oes modd derbyn cadarnhad y bydd twmpathau'n cael eu hychwanegu at y lonydd ochr a bod y tîm yn bwriadu cynyddu'r ail wal?**

Mae gwybodaeth bellach gan Dîm Prosiect Cyngor Conwy yn nodi bod adolygiad dylunio ar waith ar hyn o bryd a does dim modd cadarnhau unrhyw beth hyd nes y bydd hwnnw wedi'i gwblhau.

2. **<u>Cyfarfod gyda Swyddog Llanfairfechan ar gyfer Tîm Llesiant Cymunedol Conwy</u> – trafodaethau ynghylch cynnal sesiynau coginio a bwyta sy'n pontio'r cenedlaethau yn y neuadd – i'w drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.**
3. **<u>Cyfarfod gyda Manon Llais y Lle.</u> Mae cynlluniau ar waith ar gyfer Gŵyl Llusernau a Merlod o Dachwedd y 1af i'r 3ydd gan gynnwys tân gwyllt a gorymdaith llusernau – i'w drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.**
4. **<u>Cyfarfod gyda phreswylydd o Grŵp Llifogydd Llanfairfechan</u> – cynhaliwyd stondin ar y cyd ym marchnad Bwyd a Chrefftau Ebrill yr 21ain. Cynlluniau ar waith i Gynghorwyr Ward Lafan a'r Clerc gwrdd â phreswylwyr a cheisio ffurfio Grŵp Gweithredu Llifogydd. Mae dyddiad wedi'i drefnu yn y Clwb Hwylio ar ddydd Iau, Mai'r 23ain. Bydd y grŵp llifogydd o dan arweiniad y preswylwyr, ond bydd y Cyngor Tref yn cefnogi'r gwaith i'w sefydlu os oes gofyn amdano.**

<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>

14. <u>Derbyn materion brys i'w trafod</u>

1. **Cais i ail-gychwyn Grŵp Cyswllt Tŷ Llywelyn. Clerc i gysylltu gyda'r Swyddog Prosiectau Digwyddiadau ynghylch hyn.**
2. **Nodyn atgoffa ynghylch prosesau'n ymwneud â'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae e-byst wedi'u hanfon a bu cyfarfod dilynol. Soniwyd nad ydy'r ddogfen Cyfryngau Cymdeithasol presennol yn ymdrin â chyfryngau cyffredinol – mae angen unioni hyn yn ein Cyfarfod Blynyddol gan fod ein Rheolau Sefydlog yn datgan y dylai bod un i gyfeirio ati.**
3. **Hysbysiad bod polisi baner goch yn y Feddygfa ar gyfer pobl sy'n fregus iawn ac sydd methu â manteisio ar y feddygfa drwy'r dulliau arferol. Mae manteisio ar Feddygfeydd ymysg y prif bryderon y mae Fforwm Comisiynydd y Bobl Hŷn yn eu trafod oherwydd mae'n broblem barhaus. Mae Cynghorydd wedi gweithio ar ran preswylydd sydd wedi'i ychwanegu at y system bellach, felly mae'n bwysig holi'r preswylwyr ydyn nhw'n ei chael hi'n anodd.**
4. **Am 6yh ar Fehefin y 12fed, mae gwahoddiad i'r Cynghorwyr gymryd rhan mewn derbyniad i ddathlu Gwobr BEM y Cyng Andrew Hinchliff. Bydd Arglwydd Raglaw Sir y Fflint yn bresennol a chaiff teuluoedd a ffrindiau eu gwahodd hefyd.**

5. **Roedd cyhoeddiad ynghylch rôl y Dirprwy Faer. Caiff hyn ei benderfynu yn y cyfarfod Blynyddol ac os oes mwy nag un person yn datgan diddordeb, yna byddwn yn bwrw pleidlais. Atgoffwyd yr ymgeiswyr y bydd angen cynigydd ac eilydd arnyn nhw i gymryd rhan.**

<u>Penderfynwyd derbyn a nodi</u>

Daeth y cyfarfod i ben am 9:40yh.

Bydd y cyfarfod nesaf am 7yh ar ddydd Mercher, Mai'r 22ain.
Bydd hwn yn gyfarfod Cyngor Tref byrrach er mwyn ymdrin â materion cyllid brys ac yn dilyn hynny bydd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref
Llanfairfechan